O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2707 (Cy. 291)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Y Ffordd Ymuno tua'r Dwyrain wrth Gyffordd 35 (Pencoed), Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

Gwnaed *10 Tachwedd 2011*

Yn dod i rym *21 Tachwedd 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodol o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Tachwedd 2011 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Y Ffordd Ymuno tua'r Dwyrain wrth Gyffordd 35 (Pencoed), Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 21 Tachwedd 2011 ac yn dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r draffordd" *("the length of the motorway")* yw'r darn cyfan o ffordd ymuno tua'r